| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 20 HYDREF 2011 |
| **TEITL** | RHEOLI GWYLANOD MÔR |
| **PWRPAS** | RHOI GWYBOD I AELODAU AM YR OPSIYNAU SYDD AR GAEL I'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER YMATEB I GWYNION AM WYLANOD MÔR |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y CYNGHORYDD STEPHEN CHURCHMAN, ARWEINYDD PORTFFOLIO |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ceir pump rhywogaeth o wylanod yng Ngwynedd. Mae'n werth nodi bod poblogaeth rhai rhywogaethau gwylanod wedi disgyn fwy na 40% yn y DU ers 1970

1.2 Mae poblogaeth y wylan lwyd wedi gostwng fwy na thraean yn y DU ers canol yr 1980au ac mae'r wylan benwaig wedi'i rhoi ar Restr Goch y DU o rywogaethau y mae pryder mawr am eu cadwraeth – sy'n golygu bod angen eu gwarchod yn hytrach na'u rheoli.

1.3 Ers yr 1950au, mae poblogaethau gwylanod yn y trefi wedi cynyddu. Mae'n debyg bod hyn oherwydd datblygiadau y mae dyn wedi'u gwneud, a bod cyflenwadau bwyd di-ben-draw wedi'u creu drwy gyfleusterau tirlenwi a thrin gwastraff. Aderyn ysglyfaethus yw'r wylan ac mae'r ffaith bod pobl yn eu bwydo yn un o'r rhesymau pam eu bod yn niwsans, o ran eu bod yn plymio i lawr at bobl a cheisio cipio eu bwyd.

## 2. MATERION SY'N ACHOSI PRYDER

2.1 Y prif faterion sy'n achosi pryder yw:

- Gwylanod yn ymosod
- Afiechydon a achosir gan faw gwylanod
- Difrod i eiddo
- Lledaenu sbwriel

## 3. PWERAU DEDDFWRIAETHOL A RÔL YR AWDURDOD LLEOL

3.1 Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn gwarchod pob aderyn gwyllt. Mae'n drosedd lladd neu anafu unrhyw adar, eu nythod neu eu hwyau oni bai y gwneir hynny wrth weithredu dan drwydded, a dim ond yn unol ag amodau'r drwydded honno.

3.2 Ni chaniateir defnyddio’r drwydded gyffredinol dim ond pan fo’r trwyddedai’n gwbl fodlon bod yr holl ddulliau cyfreithlon, ‘dim lladd’ priodol megis dychryn un ai’n aneffeithiol neu’n anymarferol.

3.3 NID yw sŵn gan adar, niwsans oherwydd eu baw na’r ffaith eu bod yn agor biniau sbwriel yn rhesymau dan y Ddeddf, felly mae lladd neu niweidio’r adar am y rhesymau hyn yn drosedd, a gall troseddwyr gael eu herlyn.

3.4 Ar hyn o bryd, ymatebir i geisiadau am wasanaeth yng nghyswllt gwylanod môr drwy ddarparu cyngor ar eu rheoli. Mae rheoli adar, mewn awdurdodau eraill, wedi bod yn aflwyddiannus ac yn gynhennus iawn, a gall fod yn anghyfreithlon mewn rhai amgylchiadau.

## 4. MESURAU RHEOLI

4.1 Nid oes dyletswydd statudol gan y Cyngor i reoli niferoedd gwylanod.

4.2 Mae rheoli gwylanod môr ar sail iechyd cyhoeddus wedi’i gyfyngu, ac mae arolygon wedi dangos bod lladd gwylanod môr yn aflwyddiannus ar y cyfan, wrth i boblogaethau lleol o wylanod lwyddo i adfer eu hunain i’r lefelau optimwm ar ôl cyfnodau cymharol fyr. Mae awdurdodau lleol wedi ceisio a phrofi nifer o ddulliau er mwyn atal yr adar rhag nythu a chlwydo ar adeiladau, yn cynnwys:

- defnyddio mesurau rheoli / amddiffyn rhag adar megis rhwydi, gwifrau, pigau, neu systemau trydan i’w troi i ffwrdd
- defnyddio past gludiog ar adeiladau,
- dyfeisiadau dychryn adar sy’n defnyddio recordiad o gri adar sydd mewn gofid ac ati
- defnyddiwyd hebogiaid byw mewn rhai achosion hefyd.

Mae’r llwyddiant y technegau yma yn amrywiol yn y tymor byr ac yn gyffredinol aneffeithiol yn y tymor hir.

4.3 Y mesur mwyaf effeithiol ar gyfer rheoli gwylanod mewn trefi yw lleihau faint o fwyd sydd ar gael iddynt drwy:

- Annog pobl i beidio â bwydo’r adar.
- Atgoffa’r cyhoedd a busnesau i beidio â gorlenwi eu bagiau sbwriel ac i glymu’r bag yn dyn.
- Sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei roi allan i’w gasglu mewn derbynnydd addas ac mewn modd priodol.

4.4 Mae addysg a chodi ymwybyddiaeth yn hanfodol i lwyddiant unrhyw weithredu er mwyn lleihau niwsans a grëir gan wylanod môr. Mae swyddogion wedi mynd i'r afael a phroblemau lleol yn llwyddiannus drwy addysgu perchnogion eiddo domestig neu eiddo sy'n masnachu ynglŷn â'r modd y cedwir a chyflwynir gwastraff. Mae hon, fodd bynnag, yn dasg sy'n parhau i fynd ymlaen ac mae goblygiadau iddi o ran adnoddau.

4.5 Mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn parhau i fonitro'r sefyllfa, a phan fydd problemau digonol o ran iechyd cyhoeddus yn codi, bydd y Gwasanaeth yn gweithredu er mwyn datrys unrhyw broblemau.

**5. OPSIYNAU SYDD AR GAEL I'R AWDURDOD LLEOL**

5.1 Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a grëir gan wylanod môr, mae gan y Cyngor nifer o opsiynau ar gael iddo, gan gynnwys y rhai a ganlyn:-

a) Gwneud dim byd – ni ddylid ystyried yr opsiwn hwn, gan nad yw'n cyflawni disgwyliadau'r cyhoedd nac aelodau'r cyngor.

b) Gweithredu fel cynghorwr – Mae'r Cyngor eisoes ynghlwm â'r gwaith o barhau i ddarparu gwybodaeth i berchnogion/meddianwyr eiddo domestig, masnachol a diwydiannol ar y camau y gallant eu cymryd ar gyfer eu heiddo. Mae rhaglen waith y Gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cynnwys rheoli sbwriel a rhaglen addysgu.

c) Gweithredu'n rhannol – Yn ychwanegol i'r hyn a ddisgrifir yn b) uchod, gallai'r Cyngor ddarparu gwasanaeth i amddiffyn adeiladau domestig rhag gwylanod môr. Mae rhai atebion amlwg ar gael, fodd bynnag, gall mynediad i doeau ac uchder y toeau fod yn broblem. Bydd goblygiadau cost ynghlwm â'r gwaith a bydd problemau nes ymlaen o ran cynnal a chadw'r adeiladau a'r mesur ataliol.

ch) Cynnal rôl lawn – Yn ychwanegol i'r gweithgareddau sydd wedi'u hamlinellu yn c), gallai'r Cyngor ddarparu gwasanaeth ar gyfer cael gwared â nythod neu wyau ble y gellid cyfiawnhau bod camau o'r fath yn cydymffurfio â'r drwydded gyffredinol briodol y soniwyd amdani eisoes, pan fo perygl i iechyd / diogelwch cyhoeddus. Y cwestiwn sylfaenol sy'n codi o'r opsiwn hwn yw a ddylai'r Cyngor fod ynghlwm â gweithgaredd o'r fath, hyd yn oed os oes perygl i iechyd cyhoeddus?

5.2 Byddai'r gwasanaethau a amlinellir yn opsiwn c) a d) yn cael eu darparu gan gontractwr, a byddai tâl yn cael ei godi ar berchennog yr adeilad er mwyn adfer costau'r gwaith a chostau gweinyddol y Cyngor. Mae'n annhebygol y gallai'r awdurdod ofyn i berchnogion eiddo ymgymryd â mesurau rheoli.

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED

6.1 **Goblygiadau ariannol** – Fe fyddai goblygiadau ariannol sylweddol petai'r Cyngor yn penderfynu cynnal unrhyw fesurau tu hwnt i'r gweithgareddau cynghori presennol. Byddai unrhyw raglen yn destun bid llwyddiannus am arian refeniw, wedi'i chyflwyno drwy broses fabwysiedig y Cyngor ar gyfer bidio.

6.2 **Goblygiadau Staff** – Byddai unrhyw lwyth gwaith ychwanegol yn amharu ar weithgareddau eraill y wardeiniaid, gan gynnwys rheoli cŵn.

6.3 **Amcanion y Cyngor** – Byddai mynd i'r afael â phroblemau a grëir gan wylanod, boed hynny drwy addysg, gweithredu'n uniongyrchol, rheoli gwastraff neu rhyw ffordd arall yn cyd-fynd ag amcan strategol y Cyngor o gynnal amgylchedd diogel, glân, dymunol a chynaliadwy. Gellid cyflawni hyn drwy addysg gyhoeddus a darparu gwybodaeth/cyngor, a lleihau ar wastraff a allai fod yn ffynhonnell fwyd i'r adar. Mae'r materion yma eisoes yn cael eu cyfarch drwy ffrydiau gwaith presennol.

6.4 **Goblygiadau Cyfreithiol** - Petai'r Cyngor yn dymuno cymryd camau uniongyrchol i reoli gwylanod, byddai rhaid iddo gael a chydymffurfio â'r Drwydded Gyffredinol. Dan yr amgylchiadau presennol, mae'n gwestiwn os byddai cynnal rhaglen gyffredinol o drin neu gael gwared â wyau neu nythod yn gyfreithiol, ac mae'n bosib y byddai'n cael ei herio.